



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Cymraeg Cynnar 2

Sylfaen





Llawlyfr Cwrs Cymraeg Cynnar 2

Cwrs Lefel Sylfaen

gyda diolch i CWLWM am eu cyngor a'u cydweithrediad wrth baratoi'r cwrs hwn.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig canllawiau i diwtoriaid sy'n dysgu'r **Cwrs Cymraeg Cynnar 2** – lefel Sylfaen. Nid yw'n gwrs Sylfaen llawn ond ei nod ydy galluogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar nad ydynt yn medru'r Gymraeg o gwbl eu hunain, i gyflwyno patrymau Cymraeg a rhoi arweiniad cywir yn y Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

Dylid nodi o'r cychwyn cyntaf bod y cwrs hwn wedi'i lunio ar gyfer cynulleidfa benodol sef **gofalwyr plant cyn ysgol** gyda'r nod y bydd y sawl sy'n ei ddilyn yn gallu dychwelyd i'r gweithle i ddefnyddio'r iaith yn hyderus.



CEFNDIR

Comisiynwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i awduro'r cwrs hwn ar sail gwaith ymchwil a wnaed i'r ddarpariaeth bresennol gan gwmni Sbectrwm.

Canfu'r gwaith ymchwil hwnnw yr angen am ddarpariaeth hyblyg yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth y gallai'r ymarferwyr gael mynediad ati'n fwy annibynnol.

Mae'r tîm awduro yn cydnabod bod y sector gofal cyn ysgol yn gwbl allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu sgiliau a hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Dyma'r oedran pan fydd plant yn caffael iaith yn gyflym ac yn naturiol. Mae ymchwil yn dangos bod cynifer ag 11% o'r holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith mewn lleoliad cyn ysgol gyda 50% o'r siaradwyr hynny'n rhugl. Mae hyn yn fwy na'r ganran sy'n rhugl ymhlith y rhai sydd wedi dysgu'r iaith mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu rywle arall heblaw am y cartref. Mae hyn yn tanlinellu pa mor dyngedfennol yw cyfraniad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn y sector gofal cyn ysgol i gyrraedd nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



CYNNWYS

Mae'r cwrs wedi ei gynllunio ar ffurf 10 uned, i'w cyflwyno mewn sesiynau **wyneb yn wyneb** dros isafswm o 20 o oriau dysgu.

Cyflwynir patrymau iaith defnyddiol trwy gyfrwng cyfres o unedau sydd wedi eu seilio ar ardaloedd gweithgarwch cyffredin y maes, e.e chwarae yn y dŵr a'r tywod, yr ardal y tu allan ayyb. Ceir pwyslais cryf ar bethau sy'n greiddiol i waith yr ymarferwyr fel gofyn cwestiynau, rhoi cyfarwyddiadau a gorchmynion, ynghyd â ffocws ar weithgareddau craidd fel darllen a thrafod lluniau a stori, chwarae gemau a pharatoi ar gyfer gwahanol weithgareddau. Maent hefyd yn gydnaws â meysydd dysgu Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015), ac mae'r gofynion perthnasol ar gyfer cyrhaeddiad y plant ifancaf ar draws y meysydd dysgu hynny wedi eu hymgorffori.

Cynlluniwyd y cwrs gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau llafar yr ymarferwyr a hynny'n adlewyrchu natur eu gwaith gyda phlant oed cyn ysgol. Modelir ffurfiau llafar sy'n gydnaws â'r ffurfiau a gyflwynir yn y sector addysgol er mwyn sicrhau cysondeb i'r plant. Lle bo amrywiaethau rhwng yr iaith lafar a ddefnyddir yn y de a'r gogledd, maent wedi eu hamlygu'n glir yn yr unedau.

Mae strwythur pob uned fel a ganlyn:

- Cyfres o **ddriliau** sy'n cyflwyno prif batrymau'r uned

Mae'r driliau wedi'u cynnwys er mwyn cyflwyno'r patrymau newydd yn y dosbarth. Mae'r adran **Drilio'r Patrymau Newydd** isod yn cynnig awgrymiadau pellach ar ddulliau drilio.

- **Sgyrsiau** er mwyn ymarfer y patrymau a gyflwynir wedi eu cyd-destunoli

Mae sgyrsiau wedi'u cynnwys ym mhob uned er mwyn gosod y patrymau newydd a addysgir mewn cyd-destunau enghreifftiol sy'n berthnasol i waith yr ymarferwyr. Yn ogystal, gall yr ymarferwyr addasu llawer o'r deialogau hyn i'w defnyddio wrth chwarae rôl gyda'r plant yn eu gofal. Mae'r adran **Defnyddio'r Sgyrsiau** isod yn cynnig awgrymiadau cyffredinol i'w defnyddio.

- **Rhestr eirfa**

Mae'r eirfa sydd wedi'i chynnwys a'i defnyddio yn y broses o addysgu'r uned wedi'i rhestru ar ddiwedd pob uned. Rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw eiriau sy'n ymddangos yn yr uned hefyd yn y rhestr eirfa. Gall hyn olygu ailadrodd rhwng



unedau, ond gobeithir ei fod yn fwy hwylus i'r defnyddiwr. Mae'r geiriau hyn wedi eu didoli fesul cenedl yr enw ynghyd â'u cyfieithiadau Saesneg.

- **Esboniadau gramadegol**

Ceir nodiadau gramadeg ar ddiwedd pob uned er mwyn ceisio esbonio mor syml â phosibl pam mae pethau'n digwydd. Pwrpas cynnwys y nodiadau hyn ydy cynnig cyfle i'r ymarferwyr weld beth yw'r rhesymau dros ambell newid neu batrwm ac ymestyn eu gwybodaeth ehangach am y Gymraeg. Eu nod ydy meithrin y sgiliau trosglwyddadwy hynny gan alluogi ymarferwyr i gymhwyso'r wybodaeth i batrymau eraill wrth iddynt ymestyn eu gafael ar yr iaith.

- **Cyfras o ganeuon perthnasol i'r uned**

Mae'r pwyslais a roddir ar gaffael iaith trwy gân gyda'r grŵp oedran penodol hwn wedi ei adlewyrchu yn y cwrs hwn hefyd. Mae'r caneuon adnabyddus hynny y mae'r hawlfraint wedi ei glirio neu nad oes cyfyngiadau hawlfraint yn perthyn iddynt, wedi eu cynnwys yn y cwrs.

- **Gweithgareddau**

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynnwys ym mhob uned fel dull o gadarnhau'r patrymau sydd wedi'u dysgu yn ystod yr uned honno. Fel arfer, bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cwblhau o fewn sefyllfa dosbarth ond mae modd eu cyflwyno hefyd fel tasgau i'w cwblhau'n annibynnol. Gweler yr adran **Cyflwyno'r Gweithgareddau** isod am fanylion pellach ar weinyddu'r gweithgareddau. Ceir hefyd weithgareddau i'w cwblhau yn ôl yn y lleoliad gyda'r plant.

Noder fodd bynnag, na ddylai dull stwythuro'r unedau gael ei ddefnyddio fel fframwaith cyfyng ar gyfer cynllunio'r sesiynau dysgu. Gallai tiwtor addasu trefn yr unedau yn unol â gofynion yr ymarferwyr, a cheir awgrymiadau pellach isod ar ddulliau o gyflwyno'r elfennau gwahanol yn yr uned.

Dysgu ar-lein annibynnol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cwrs, bwriedir i'r adnoddau a'r gweithgareddau atodol a welir ar wefan *Dysgu Cymraeg* atgyfnerthu'r dysgu wyneb yn wyneb a galluogi ymarferwyr i weithio'n fwy annibynnol. Gwelir yno amrywiaeth o weithgareddau fesul uned cyfatebol yn meithrin dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r patrymau a'r eirfa a gyflwynir.



Ceir gweithgareddau sy'n meithrin sgiliau ysgrifennu yn yr unedau ac yn y gweithgareddau atodol, ond fel y nodwyd eisoes, prif ffocws y cwrs ydy meithrin sgiliau llafar.

AWGRYMIADAU I DIWTORIAID SY'N CYFLWYNO'R CWRS

Mae'r adran hon yn cynnwys rhai awgrymiadau i gyflwyno'r cwrs yn y sesiynau wyneb yn wyneb.

Drilio'r Patrymau Newydd

Cyn dechrau'r dril yn y dosbarth:

- 1) dylid ymgyswrtio â **ffurfiau ac ynganiad** patrymau'r cwrs.
- 2) gellid gosod **nod y wers**, sef dweud beth fydd yn cael ei wneud yn y driliau. I ddechrau, dylid esbonio'r nod mewn ffordd syml ac yn ddwyieithog er mwyn gosod awyrgylch Cymraeg y bydd yr ymarferwyr yn ymdoddi'n raddol ac yn naturiol iddo, e.e. byddai'n well dweud:-

'Heddiw, 'dyn ni'n mynd i ddysgu sut i ddweud ble mae pethau. Byddwn ni'n dysgu sut i ddweud pethau fel – 'Mae Tedi ar y gadair, dan y bwrdd, ar bwys y drws.'

'Today we're going to learn how to say where things are. We will be learning how to say things like – 'Tedi is on the chair, under the table, by the door.'

yn hytrach na dweud:-

'Heddiw 'dyn i'n mynd i ddysgu sut i ddefnyddio'r arddodiaid.'
'Today we're going to learn how to use prepositions.'

Serch hyn, mae'n bosibl y gallai'r ymarferwyr ddangos diddordeb mewn rhai agweddau gramadegol rywbyrd yn ystod y wers. Bydd angen sicrhau eich bod fel tiwtoriaid yn gallu esbonio'r ramadeg yn glir ac yn gywir os oes angen.



Bydd eisiau addasu'r drilio i'r patrymau a ddysgir, ond yn gyffredinol, gellid dilyn y camau hyn:-

- i. Esbonio ystyr y brawddegau i'w drilio. Dylid esbonio bod ffurfiau llafar yn cael eu cyflwyno, a'r rhesymau dros hynny. Yna, dylid annog y dosbarth i gau eu ffeiliau.

Y rheswm dros hyn yw:-

- a) Bydd pawb yn edrych arnoch chi, y bwrdd gwyn ac aelodau eraill y dosbarth yn lle bod eu trwynau i lawr yn y llyfr.
- b) Cânt gyfle i ddweud y geiriau newydd cyn eu gweld. Gobeithir y bydd hyn yn osgoi cam-ynganu trwy ddarllen yn anghywir.

Gellir pwysleisio y bydd popeth yn cael ei ysgrifennu ar y bwrdd gwyn ac y cânt edrych ar eu nodiadau cyn dechrau'r sgwrs.

- ii. Annog y dosbarth i gyd i'ch dynwared mewn corws dair neu bedair gwaith.
- iii. Dewis dysgwyr unigol ar hap i'ch dynwared, a'r tiwtor i gywiro/gadarnhau ymdrech yr unigolyn drwy ailadrodd yr un frawddeg:

Tiwtor: Mae'r twba o dan y drws.

Dysgwr: *Mae'r twba o dan y drws.*

Tiwtor: Mae'r twba o dan y drws.

- iv. Disodli un elfen o'r frawddeg, a defnyddio honno fel sbardun i unigolion gynhyrchu brawddeg, e.e.

Tiwtor: Sudd oren.

Dysgwr: ***Wyt ti eisiau sudd oren?***

Tiwtor: Sudd afal.

Dysgwr: ***Wyt ti eisiau sudd afal?*** *a.y.y.b.*

- v. Ar ôl gwneud yr holl floc, dylid ysgrifennu'r dril ar y bwrdd gwyn (fel mae'n ymddangos yn yr uned) drwy ofyn i bawb beth maent yn ei gofio o'r brawddegau.



- vi. Rhannu pawb yn barau er mwyn ymarfer y brawddegau, gofyn cwestiynau a newid y darnau sydd wedi'u tanlinellu i'w hateb, e.e.

Ble mae Tedi Twt?

Mae Tedi Twt ar y bwrdd.

Mae Tedi Twt dan y gadair.

Mae Tedi Twt ar y silff.

- vii. Cyfieithu - tiwtor yn dweud y Saesneg, a'r dosbarth i roi'r Gymraeg ar lafar, ar y bwrdd neu ar fyrddau bach gwyn. Wedyn, gweithio mewn paruau neu fel grŵp gan gynnal sesiwn dysgu mini meicro os oes modd.
- viii. Dileu'r patrymau o'r bwrdd gwyn a'u defnyddio ar lafar yn y dosbarth, gyda'r tiwtor yn gofyn ble mae gwahanol bethau yn y dosbarth. Parau i wneud yr un peth wedyn cyn agor y llyfrau i edrych ar y sgysiau.

Dylid amrywio'r drilio yn ôl yr hyn a gyflwynir. Yn y dril uchod, er enghraifft, gellid cyflwyno'r arddodiaid i gyd gydag un neu ddau enw (e.e. y bag / y gadair) i ddechrau, neu hyd yn oed gyflwyno'r arddodiaid yn unig, gan ddefnyddio bag neu gadair yn yr ystafell cyn eu drilio mewn brawddegau.

Gellir rhoi geiriau newydd nad ydynt yn yr uned os bydd dysgwyr yn gofyn amdanynt a'u cynnwys yn y drilio. Bydd hyn yn sicrhau bod yr uned yn fwy perthnasol i unigolion yn y dosbarth. Ond dylid bob amser gychwyn dril gyda geirfa gyfarwydd er mwyn hoelio'r sylw ar y patrwm a gyflwynir.

Mae'n bwysig cyflwyno'r driliau'n gyflym ac yn fywiog heb dynnu sylw at gamgymeriadau unigolion.

Defnyddio'r Sgysiau

Dyma'r camau y gellir eu dilyn ar gyfer cyflwyno'r sgysiau:-

1. Y tiwtor yn darllen y sgws yn uchel - pawb i wrando er mwyn cael syniad cyffredinol o'r hyn sy'n digwydd. Byddai'n well gallu chwarae'r deialogau wedi'u recordio, os oes modd.
2. Y tiwtor yn darllen y sgws fesul brawddeg/llinell a'r dosbarth yn ailadrodd mewn corws.



3. Y tiwtor i roi cyfieithiadau Saesneg fesul llinell/brawddeg o'r sgwrs ar hap - pawb i ddod o hyd i'r llinell/frawddeg gyfatebol o'r sgwrs a'i dweud yn Gymraeg.
Y tiwtor i fynd dros ystyr popeth ar y diwedd ac ateb unrhyw gwestiynau.
4. Y tiwtor yn cymryd rhan A, a'r dosbarth rhan B ac fel arall.
5. Hanner y dosbarth i gymryd rhan A. Yr hanner arall i gymryd rhan B ac fel arall.
6. Ymarfer y sgwrs mewn parau, gan gyfnwio rôl a phartner ar ôl ychydig.
7. Ceisio cofio'r sgwrs, os na fydd hi'n rhy hir, a'i pherfformio heb edrych ar y daflen.
8. Tiwtor i danlinellu rhai geiriau yn y sgwrs i'w newid. Nid oes geiriau wedi'u tanlinellu yn unedau'r cwrs er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r tiwtoriaid a'r ymarferwyr ddewis y geiriau eu hunain.

Gweithgareddau'r Cwrs

Ceir amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r cwrs hwn. Mae pob uned yn cynnwys hyd at dri gweithgaredd i'w cwblhau fel rhan o'r broses o gyflwyno'r uned. Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau posibl, yn seiliedig ar y rhestr geirfa. Bydd angen rhifo'r geiriau yn y rhestr.

- Partner 1 i daflu dis (neu ddau ddis), neu godi cerdyn chwarae; Partner 2 i ddweud y gair sy'n cyfateb i'r rhif yn Saesneg neu Gymraeg a phartner i roi'r gair yn yr iaith arall.
- Fel uchod ond rhaid cynhyrchu brawddeg i gynnwys y gair.
- Fel uchod ond rhaid gofyn cwestiwn i gynnwys y gair ac yna Partner 1 i ateb y cwestiwn.

Er bod cyfarwyddyd wedi ei gynnwys gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, dylai tiwtoriaid ac ymarferwyr feddwl am ddulliau amrywiol o ddefnyddio'r adnoddau. Mae hyn hefyd yn golygu bod modd defnyddio'r gweithgareddau'n wahaniaethol. Er enghraifft, gyda'r gemau trac, gellid derbyn atebion un gair ar gyfer rhai tasgau, ond gellid gofyn am atebion llawn, sgysiau neu drafodaethau ar gyfer yr un gêm drac ar adegau eraill.

Mae cael amrywiaeth o ddisiau rhif, rhagenwau, lliw, siapiau ac ati yn y dosbarth yn ddefnyddiol. Felly hefyd gardiau chwarae ac amrywiaeth o gardiau fflach megis Cardiau Fflach CBAC a Chynllun Colegau Cymru.



Bydd rhai gweithgareddau'n perthyn i ddriliau penodol, lle bo eraill yn canolbwyntio ar gynnwys unedau cyfan. Eto, mae hyn yn cynnig dewis ac elfen o hyblygrwydd i'r tiwtor wrth ddysgu'r cwrs.

Yn olaf, mae cynnal sesiynau mini meicro yn ymarfer da i'r ymarferwyr ar gyfer cyflwyno patrymau ieithyddol mewn cyd-destun anffurfiol sy'n eu paratoi ar gyfer sefyllfa yn eu gweithleoedd. Yn syml, mewn grwpiau o 3 neu 4, mae pob aelod o'r grŵp yn chwarae rôl yr 'arweinydd', gan gyflwyno gweithgaredd i'r dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. gemau dis sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r patrymau iaith sy'n cael eu dysgu ar y pryd. Mae'n broses effeithiol a pherthnasol o gadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu ac ar yr un pryd y mae'n ennyn hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn cyd-destun cyfarwydd.



Uned 1 Y Tywydd

Dril 1: Trafod y tywydd heddiw

Sut mae'r tywydd heddiw? Mae hi'n oer heddiw.
sych
stormus
dwym / gynnes
wlyb

Ydy hi'n niwlog heddiw? Ydy, mae hi'n niwlog heddiw.
heulog
gymylog Nac ydy, dydy hi ddim yn gymylog heddiw.
wyntog
bwrw glaw Ydy, mae hi'n bwrw glaw heddiw.
bwrw cesair / cenllysg
bwrw eira Nac ydy, dydy hi ddim yn bwrw eira heddiw.

Sgwrs 1

Arweinydd: Bore da, blant.

Plant: Bore da.

Arweinydd: Sut mae'r tywydd heddiw?

Plant: Mae hi'n gynnes heddiw.

Arweinydd: Ydy. Mae hi'n gynnes ac yn sych heddiw.





Gweithgaredd

Rapiwch y pennill yma gyda'r plant.

Rap y Tywydd

Arweinydd: Sut mae'r tywydd heddiw?

Plentyn: Mae hi'n heulog iawn!

Pawb: Mae hi'n heulog iawn yn y bore a'r prynhawn.

Newidiwch 'heulog iawn' am dywydd arall, e.e.

'bwrw eira'

'bwrw glaw'

'oer, oer, oer'

Dril 2: Y tywydd a'r tymhorau

Sut mae'r tywydd yn y gwanwyn?	Mae hi'n Dydy hi ddim yn	sych gawodlyd boeth	yn y gwanwyn.
Sut mae'r tywydd yn yr haf?	Mae hi'n Dydy hi ddim yn	boeth braf oer	yn yr haf.
Sut mae'r tywydd yn yr hydref?	Mae hi'n Dydy hi ddim yn	wyntog niwlog gynnes	yn yr hydref.
Sut mae'r tywydd yn y gaeaf?	Mae hi'n Dydy hi ddim yn	oer rhewllyd braf	yn y gaeaf.





Sgwrs 2

Arweinydd: Sut mae'r tywydd yn y gwanwyn, blant?
Plant: Mae hi'n sych.
Arweinydd: Da iawn chi. Sut mae'r tywydd yn yr haf?
Plant: Mae hi'n boeth.
Arweinydd: Ydy hi'n boeth yn y gaeaf hefyd?
Plant: Nac ydy. Mae hi'n oer yn y gaeaf.
Arweinydd: Ydy.

Dril 3: Trafod y tywydd ddoe

Sut roedd y tywydd ddoe? Roedd hi'n/ Mi roedd hi'n braf
heulog
dwym / gynnes
wyntog
ddoe.

Oedd hi'n bwrw glaw ddoe? Oedd.
oer Oedd, roedd hi'n oer ddoe. / Oedd, mi roedd hi'n oer ddoe.
gynnes Nac oedd.
gymylog Nac oedd, doedd hi ddim yn gymylog ddoe.

Sgwrs 3

Arweinydd: Sut roedd y tywydd ddoe?
Plant: Roedd hi'n stormus ddoe.
Arweinydd: Oedd hi'n bwrw glaw hefyd?
Plant: Oedd, roedd hi'n bwrw glaw.
Arweinydd: Oedd hi'n bwrw eira ddoe?
Plant: Nac oedd! Doedd hi ddim yn bwrw eira!





Dril 4: Trafod y tywydd

Sut bydd y tywydd yfory?	Bydd hi'n / Mi fydd hi'n	oer iawn niwlog gynnes bwrw eira	yfory.
Fydd hi'n	bwrw glaw sych wyntog boeth	yfory?	Bydd. Bydd, bydd hi'n / mi fydd hi'n sych yfory. Na fydd. Na fydd, fydd hi ddim yn boeth yfory.

Sgwrs 4

Arweinydd: Mae hi'n ddydd Sadwrn yfory. Sut bydd y tywydd?
Plant: Braf, Miss.
Arweinydd: Bydd, gobeithio! Fydd hi'n gymylog, blant?
Plant: Na fydd! Bydd hi'n heulog iawn.
Arweinydd: Da iawn wir.



Geirfa Vocabulary

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
maneg / menig	glove/s
sgarff/iau	scarf/scarves

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
gaeaf	winter
gwanwyn	spring
haf	summer
hydref	autumn
tymor	season
tywydd	weather

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
bwrw cenllysg	to hail (N)
bwrw cesair	to hail (S)
bwrw eira	to snow
bwrw glaw	to rain
gobeithio	to hope

Ansoddeiriau *Adjectives*

Cymraeg	Saesneg
braf	fine
cymylog	cloudy
cynnes	warm
gwlyb	wet
gwyntog	windy
heulog	sunny





Cymraeg Cynnar 2

oer	cold
poeth	hot
stormus	stormy
sych	dry
twym	warm (S)





Gramadeg

Grammar

Ateb cwestiynau

Answering questions

Remember:

'**ti**' in the question = '**fi**' in the answer

'**fi**' in the question = '**ti**' in the answer

'**ni**' in the question = '**ni**' neu '**chi**' in the answer, e.g.

Pwy wyt **ti**?

Sali Mail **dw** i.

Disgrifio'r tywydd

Describing the weather

Hi *it*

There is no word for '*it*' in Welsh, we use '**e/o/fe/fo**' for 'he'/'him', or '**hi**' for 'she'/'her'.

We use '**hi**' for '*it*' when we describe the weather or the time, e.g.

Mae hi'n ...

It is ...

Treigladd meddal

Soft Mutation

In English – '*It is Friday*' – the '*it*' comes first (apart from when you change the sentence to a question – *Is it?*)

In Welsh, the verb usually comes first:

Mae hi'n ddydd Gwener.

'**Mae**', '**Roedd**' and '**Bydd**' are all forms of '**bod**'- '*to be*'.

We must use '**yn**' or '**n**' in the same sentence as them.





The 'yn' or 'n' cause a **treigladd meddal** (soft mutation) to nouns and adjectives which follow them directly e.g.

cymylog	Mae hi'n g ymylog.
twym	Mae hi'n d wym.

We don't use a soft mutation with verbs after 'yn' or 'n' e.g.

Mae hi'n bwrw glaw.

'**Braf**' is an exception and does not mutate

e.e. Mae hi'n braf. (Think of the Costa Brava!)

Mi

In North Wales, there is a tendency to use 'mi' before conjugated verbs, and these cause a **treigladd meddal** (soft mutation).





Uned 2 Byd Natur

Dril 1: Beth/Be sy yn yr ardd?

Beth/Be sy yn yr ardd?	Mae	coed glaswellt blodau llysiau pwll dŵr	yn yr ardd.
------------------------	-----	--	-------------

Beth/Be sy tu allan?	Mae	gwenyn mwd adar tŷ bach twt	tu allan.
----------------------	-----	--------------------------------------	-----------

Sgwrs 1

Arweinydd: Dewch yma, blant. Beth sy yn yr ardd?

Plant: Mae coed a glaswellt yn yr ardd.

Arweinydd: Beth arall?

Kamil: Mae blodau a llysiau yn yr ardd.

Arweinydd: Ie wir. Beth sy tu allan?

Elena: Mae adar a gwenyn tu allan.

Arweinydd: Oes. Dyna hyfryd.

Dril 2: Beth sy gyda ti? / Be sy gen ti?

Fersiwn y de

Beth sy gyda ti?	Mae	nyth mwydyn brigau	gyda fi.
------------------	-----	--------------------------	----------

Beth sy gyda chi?	Mae	nyth cacen fwd gwlân	gyda ni.
-------------------	-----	----------------------------	----------





Fersiwn y gogledd

Be sy gen ti? Mae gen i nyth.
fwydyn.
frigau.

Be sy gynnoch chi? Mae gynnon ni nyth.
gacen fwd.
wlân.

Sgwrs 2 – fersiwn y de

Arweinydd: Wel Evie, beth sy gyda ti fan'na?
Evie: Mae brigau gyda fi, Syr.
Arweinydd: A beth sy gyda ti, Rhodri?
Rhodri: Mwd.
Arweinydd: Hyfryd. A beth sy gyda chi Evan a Harris?
Evan: Mae glaswellt gyda ni.
Harris: A gwlân.
Arweinydd: Gwych. Mae pethau i greu nyth gyda chi!

Sgwrs 2 – fersiwn y gogledd

Arweinydd: Wel Evie, be sy gen ti fan'na?
Evie: Mae gen i frigau, Syr.
Arweinydd: A be sy gen ti, Rhodri?
Rhodri: Mwd.
Arweinydd: Hyfryd. A be sy gynnoch chi Evan a Harris?
Evan: Mae gynnon ni laswellt.
Harris: A gwlân.
Arweinydd: Gwych. Mae gynnoch chi bethau i greu nyth!



Dril 3: Oes gyda ti? / Oes gen ti?

Fersiwn y de

Oes	cragen blodau dail gwlan	gyda ti?	Oes. Oes, mae blodau gyda fi. Nac oes. Nac oes, does dim gwlan gyda fi.
Oes	carreg brigau plu mwd	gyda chi?	Oes. Oes, mae brigau gyda ni. Nac oes. Nac oes, does dim mwd gyda ni.

Fersiwn y gogledd

Oes gen ti	gragen? flodau? ddail? wlân?	Oes. Oes, mae gen i flodau. Nac oes. Nac oes, does gen i ddim gwlan.
Oes gynnoch chi	garreg? frigau? blu? fwd?	Oes. Oes, mae gynnon ni frigau. Nac oes. Nac oes, does gynnon ni ddim mwd.

Sgwrs 3 – fersiwn y de

Arweinydd: Beth sy yn y bocs, blant?
Cara: Mae pethau i greu cacen fwd yn y bocs.
Arweinydd: Oes dail gyda ti, Erin?
Erin: Oes. Mae mwd gyda fi hefyd.
Arweinydd: Oes gwlan gyda chi?
Plant: Nac oes, does dim gwlan gyda ni. Mae mwydyn gyda ni!



Sgwrs 3 – fersiwn y gogledd

Arweinydd: Be sy yn y bocs, blant?

Cara: Mae pethau i greu cacen fwd yn y bocs.

Arweinydd: Oes gen ti ddail, Erin?

Erin: Oes. Mae gen i fwd hefyd.

Arweinydd: Oes gynnoch chi wân?

Plant: Nac oes, does gynnon ni ddim gwlân. Mae gynnon ni bry genwair!

Dril 4: Beth mae'n rhaid gwneud?

Beth mae'n rhaid i ti wneud?

Rhaid i fi/mi gasglu pethau.
roi popeth mewn bocs.
wisgo menig.

Beth mae'n rhaid i chi wneud?

Rhaid i ni gymysgu.
dacluso.
olchi dwylo.

Rhaid i fi/mi beidio anghofio ffedog.
colli popeth.

Rhaid i ni beidio rhoi dŵr yn y bowlen.
cymysgu.

Sgwrs 4

Arweinydd: Dach chi'n barod?

Plant: Ydyn Miss!

Arweinydd: Beth mae'n rhaid i chi wneud?

Ben: Golchi dwylo.

Alex: A rhaid i ni wisgo ffedog.

Arweinydd: Oes ffedog gynnoch chi?

Plant: Oes.

Arweinydd: Da iawn. Rhaid i ni beidio anghofio ffedog!



Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd

Feminine Nouns

Cymraeg	Saesneg
cacen fwd/cacennau mwd	mud cake/s
cragen/cregyn	shell/s
deilen/dail	leaf/leaves
ffedog/au	apron/s
gardd/gerddi	garden/s
gwenynen/gwenyn	bee/s
maneg/menig	glove/s
llaw/dwylo	hand/s
pluen/plu	feather/s
powlen/ni	bowl/s

Enwau Gwrywaidd

Masculine Nouns

Cymraeg	Saesneg
aderyn/adar	bird/s
blodyn/blodau	flower/s
bocs/ys	box/es
brigyn/brigau	twig/s
dŵr	water
glaswellt	grass
gwlân	wool
llanast	mess
llysieuyn/llysiau	vegetable/s
mwd	mud
mwydyn/mwydod (S) pry/pryfed genwair (N)	worm/s
nyth/nythod	nest/s
pwll dŵr/pyllau dŵr	puddle/s, pond/s
tŷ bach twt	playhouse





Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
casglu	to collect
cymysgu	to mix
gwisgo	to wear
rhoi	to put/to give

Ansoddeiriau

Adjectives

Cymraeg	Saesneg
hyfryd	lovely





Gramadeg *Grammar*

Ateb cwestiynau *Answering questions*

Gyda / Gan

'**Gyda**' is usually used in the south, and '**gan**' is usually used in the north to show ownership. e.g.

Mae cragen gyda ni

Mae gynnon ni fwd.

'**Gyda**' forms come towards the end of the sentence or question, and '**gan**' forms come towards the start of the sentence or question.

A **treigladd meddal** is used after the pronoun following the '**gan**' form, e.g.

Mae gen i fwd

Oes gynnoch chi **wlân**?

It doesn't matter which one you use, but you must be consistent.

Here are both forms:

Gyda	Gan
gyda fi	gen i
gyda ti	gennyti ti
gyda fe	ganddo fo, gynno fo
gyda hi	ganddi hi/gynni hi
gyda ni	gynnon ni
gyda chi	gynnoch chi
gyda nhw	ganddyn nhw/gynnyn nhw
gyda Siân	gan Siân





Rhaid

'Rhaid' means '*must*' in English.

'i' must follow '**rhaid**' if you are referring to a person. Here is the pattern:

Rhaid
Rhaid i fi/mi
Rhaid i ti
Rhaid iddo fe/fo
Rhaid iddi hi
Rhaid i ni
Rhaid i chi
Rhaid iddyn nhw

The verb takes a **treigladd meddal** (*soft mutation*) following each pronoun, e.g.

Rhaid i mi **dd**weud

Rhaid i chi **g**ofio



Uned 3 Gofalu am Anifeiliaid

Dril 1: Trafod beth/be mae'r plant wedi ei wneud

Beth/Be rwyd ti wedi ei wneud?	Dw i	wedi	glanhau'r cw b.
	Dw i	wedi	brwsio'r gwningen.

Beth/Be mae'r plant wedi ei wneud?	Mae Siân	wedi	bwydo'r bochdew.
	Mae Gruff	wedi	golchi'r bowlen.
	Mae'r plant	meithrin	wedi helpu Miss.

Dril 2: Trafod beth/be mae'r plant wedi bod yn ei wneud

Beth/Be rwyd ti wedi bod yn ei wneud?	Dw i	wedi bod	yn helpu'r plant.
	Dw i	wedi bod	yn gofalu am y pysgodyn aur.

Beth/Be mae'r plant wedi bod yn ei wneud?	Mae Siân	wedi bod	yn tacluso'r cw b.
	Mae Gruff		yn rhoi gwair i Ned.
	Mae'r plant		yn dal y neidr.

Sgwrs 1

Arweinydd: P'nawn da, blant.

Plant: P'nawn da Miss.

Arweinydd: Beth rwyd ti wedi ei wneud heddiw Dafi?

Dafi: Dw i wedi bwydo'r pysgodyn aur.

Arweinydd: Da iawn ti. A beth rwyd ti wedi ei wneud heddiw, Efan?

Efan: Dw i wedi helpu newid dŵr y pysgodyn aur.

Arweinydd: Gwych. A beth rwyd ti wedi bod yn ei wneud, Neli?

Neli: Dw i wedi bod yn gwylio pawb.



Dril 3: Holi'r plant

Wyt ti wedi	rhoi blawd llif yn y gawell? rhoi gwair yn y cwab? rhoi bwyd yn y bowlen? llenwi'r botel ddŵr?	Ydw / Do. Ydw / Do, dw i wedi rhoi gwair yn y cwab. Nac ydw / Naddo. Nac ydw / Naddo, dw i ddim wedi llenwi'r botel ddŵr.
Dych / Dach chi wedi	rhoi mwythau i'r bochdew? symud y crwban? gweld Fflwff? rhoi bwyd i lori?	Ydyn / Do. Ydyn / Do, 'dyn / dan ni wedi symud y crwban. Nac ydyn / Naddo. Nac ydyn / Naddo, 'dyn / dan ni ddim wedi rhoi bwyd i lori.

Sgwrs 2 – fersiwn y de

Arweinydd:	Nawr blant, dych chi wedi cofio popeth?
Plant:	Ydyn, 'dyn ni wedi cofio popeth.
Arweinydd:	Gwenno, wyt ti wedi cofio rhoi bwyd i Byrti?
Gwenno:	Ydw.
Arweinydd:	Osian, wyt ti wedi cofio rhoi dŵr i Byrti?
Osian:	Ydw. Mae Gwenno wedi helpu.
Arweinydd:	Da iawn. Elliw, wyt ti wedi cofio cau drws cawell Byrti?
Elliw:	O na! Dw i wedi anghofio!

Sgwrs 2 – fersiwn y gogledd

Arweinydd:	Rŵan blant, dach chi wedi cofio popeth?
Plant:	Do, dan ni wedi cofio popeth.
Arweinydd:	Gwenno, wyt ti wedi cofio rhoi bwyd i Byrti?
Gwenno:	Do.
Arweinydd:	Osian, wyt ti wedi cofio rhoi dŵr i Byrti?
Osian:	Do, mae Gwenno wedi helpu.
Arweinydd:	Da iawn. Elliw, wyt ti wedi cofio cau drws cawell Byrti?
Elliw:	O na! Dw i wedi anghofio!



Dril 4: Trafod ble mae'r plant wedi bod

Wyt ti wedi bod	i weld sioe gŵn?	Ydw / Do.
	i fferm?	Ydw / Do, dw i wedi bod i fferm.
	i acwariwm	Nac ydw / Naddo.
	i ffair?	Nac ydw / Naddo, dw i ddim wedi bod i ffair.

Dych / Dach chi wedi bod	i'r parc?	Ydyn, 'dyn ni wedi bod i'r parc.
		Do, dan ni i wedi bod i'r parc.
	i'r sŵ?	Nac ydyn 'dyn ni ddim wedi bod i'r sŵ.
		Naddo dan ni ddim wedi bod i'r sŵ

Ydy'r plant wedi bod	i'r goedwig?	Ydyn / Do, mae'r plant wedi bod i'r goedwig.
	i'r siop anifeiliaid anwes?	Nac ydyn / Naddo, dydy'r plant ddim wedi bod i'r siop anifeiliaid anwes.

Sgwrs 3 – fersiwn y de

Arweinydd: Dych chi wedi bod i siop anifeiliaid anwes, blant?

Tegan: Ydw. Dw i wedi bod i'r siop yn y dre.

Arweinydd: Beth oedd yn y siop, Tegan?

Tegan: Roedd cwningod, pysgod aur a moch cwta yn y siop.

Arweinydd: Diddorol iawn. A ti Dione?

Dione: Na! Dydw i ddim yn hoffi anifeiliaid anwes!

Arweinydd: O diar.

Sgwrs 3 – fersiwn y gogledd

Arweinydd: Dach chi wedi bod i siop anifeiliaid anwes, blant?

Tegan: Do. Dw i wedi bod i'r siop yn y dre.

Arweinydd: Be oedd yn y siop, Tegan?

Tegan: Roedd cwningod, pysgod aur a moch cwta yn y siop.

Arweinydd: Diddorol iawn. A ti Dione?

Dione: Na! Dw i ddim yn hoffi anifeiliaid anwes!

Arweinydd: O diar.



Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
cawell/cewyll	cage/s
coedwig/oedd	forest/s
cwningen/cwningod	rabbit/s
ffair/ffeiri	fair/s
fferm/ydd	farm/s
powlen/ni	bowl/s
potel (ddŵr)/poteli dŵr	(water) bottle/s
sioe gŵn/sioeau cŵn	dog show/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
acwariwm	aquarium
bochdew/ion	hamster/s
blawd llif	sawdust
crwban/od	tortoise/s
cwb	hutch/es
gwair	grass / hay
neidr/nadroedd	snake/s
pysgodyn (aur)/ pysgod aur	(gold)fish
sŵ	zoo

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
brwsio	to brush
bwydo	to feed
cau	to close
cofio	to remember
dal	to hold
glanhau	to clean
gofalu (am)	to care (for)
golchi	to wash
gwyllo	to watch
helpu	to help





Cymraeg Cynnar 2

newid	to change
rhoi mwythau	to pet
rhoi	to give / to put
tacluso	to tidy

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
O diar!	Oh dear!





Gramadeg

Grammar

'Wedi' a 'Wedi bod'

When we say that we 'have' done something, we use '**wedi**', e.g.

Dw i **wedi** bwyta cinio.

I **have** eaten lunch.

'Dyn / Dan ni **wedi** gorffen.

We **have** finished.

When we say that we 'have been' something or somewhere, we use '**wedi bod**', e.g.

Dw i **wedi bod** i'r dre.

I **have been** to town.

'Dyn / Dan ni **wedi bod** yn paentio.

We **have been** painting.

'**Wedi**' and '**yn**' never appear next to each other.

In the south, we would answer 'Wyt ti wedi ... ?' with 'Ydw' and 'Dych / Dach chi wedi ... ?' with 'Ydyn'. In the north, however, 'Do' is often used to answer both these questions.

Beth mae'r plant wedi ei wneud?

This is how the question should be written in full. The 'ei' causes a **treigladd meddal**, causing the 'gwneud' to mutate to 'wneud'. Very often, the 'ei' is not written, but the mutation it causes remains.

Dw i / Rydw i

You will come across both of these forms. '**Dw i**' is an abbreviation of '**Rydw i**', and '**Dw i ddim**' is an abbreviation of '**Dydw i ddim**'. Both forms are acceptable, but the former is more commonly used in speech.





Uned 4

Teithio (Gorffennol 'Mynd')

Dril 1: Ble est ti? / Lle est ti?

Ble / Lle est ti ar dy wyliau?

Es i / Mi es i

i'r traeth.
i'r parc gwyliau.
i'r garafán.
i Ffrainc.
i weld Nain a Taid.

Est ti
i'r môr?
i gerdded?
i nofio?
i siopa?

Do.
Naddo.
Do, es i i nofio / Do, mi es i i nofio.
Naddo, es i ddim i siopa.

Dril 2: Sut est ti?

Sut est ti ar dy wyliau?

Es i / Mi es i

mewn

awyren.
car.

Es i / Mi es i

ar

fws.
drên.
gwch.
feic.
droed.

Est ti mewn awyren?
ar fws?

Do, es i mewn awyren / Mi es i mewn awyren.
Naddo, es i ddim ar fws. Es i / Mi es i mewn car.





Sgwrs 1

Arweinydd: Croeso 'nôl blant. Lle est ti ar dy wyliau Mair?

Mair: I'r traeth.

Arweinydd: Da iawn Mair. Sut est ti i'r traeth?

Mair: Mi es i mewn car.

Arweinydd: Hyfryd. Beth amdanat ti Menna? Lle est ti ar dy wyliau?

Menna: Mi es i i'r parc gwyliau.

Arweinydd: Est ti mewn car hefyd?


Menna: Naddo. Mi es i ar fws.

Arweinydd: Bendigedig. Dyna hwyll!

Sut est ti ar dy wyliau?

Ysgrifennwch frawddeg o dan bob llun i ddisgrifio sut aethoch chi ar eich gwyliau.

Write a sentence under each picture to describe how you went on holiday.





Dril 3: Ble / Lle aeth Tedi?

Ble / Lle aeth Tedi ar ei wyliau?

Aeth / Mi aeth Tedi

i'r traeth.

i Sbaen.

Aeth e / Mi aeth o

i Gaerdydd.

Ble / Lle aeth Doli ar ei gwyliau?

Aeth / Mi aeth Doli

i'r parc gwyliau.

i America.

Aeth hi / Mi aeth hi

i Fangor.

Aeth

Tedi i'r traeth?

Do, aeth Tedi i'r traeth / Do, mi aeth Tedi i'r traeth.

Doli i Sbaen?

Naddo, aeth Doli ddim i Sbaen.

e/o mewn car?

Do, aeth e mewn car / Do, mi aeth o mewn car.


hi ar gwch?

Naddo, aeth hi ar fws.

Ble/Lle aeth Tedi Twt a Doli Glwt?

Ysgrifennwch frawddegau i ddisgrifio beth wnaeth Tedi Twt a Doli Glwt.

Write sentences to describe what Tedi Twt and Doli Glwt have been doing.



Tedi Twt

- Sbaen
- awyren
- traeth



Doli Glwt

- Caerdydd
- trêr
- parc



Dril 4: Ble / Lle aethoch chi?

Ble / Lle aethoch chi	bore 'ma? ddoe? neithiwr? wythnos ddiwethaf?	Aethon ni / Mi aethon ni	i'r parc. i'r siop. i'r caffi. i weld Mam-gu / Nain.
-----------------------	---	--------------------------	---

Aethoch chi	mewn car? ar droed? ar feic? ar drên?	Do. Naddo. Do, aethon ni ar feic / Do, mi aethon ni ar feic. Naddo, aethon ni ddim ar drên.
-------------	--	--

Sgwrs 2

Arweinydd: Ble aethoch chi ar wyliau, blant?
 Plant: I Aberystwyth.
 Arweinydd: Do? Aethoch chi i'r môr?
 Bleddyn: Naddo.
 Arweinydd: Ble aethoch chi, felly?
 Elin: Dw i ddim yn siŵr.
 Bleddyn: Aethon ni i'r caffi gyda Mami.
 Arweinydd: O, dyna hyfryd!

Dril 5: Beth/Be oedd yno?

Beth/Be oedd yno?	Roedd	sŵ môr parc llawer o anifeiliaid	yno.
-------------------	-------	---	------

Oedd	syrkas parc ffair pwll nofio	yno?	Oedd. Nac oedd. Oedd, roedd ffair yno / Oedd, mi oedd ffair yno. Nac oedd, roedd môr yno.
------	---	------	--





Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd

Feminine Nouns

Cymraeg	Saesneg
awyren/nau	plane/s
carafán/au	caravan/s
hwyl	fun
llong/au	ship/s

Enwau Gwrywaidd

Masculine Nouns

Cymraeg	Saesneg
beic/iau	bike/s
bws/bysiau	bus/es
car/ceir	car/s
caffi	café
cwch/cychod	boat/s
ffair	fair
môr	sea
parc/iau	park/s
picnic	picnic
pwll/pyllau	pool/s
siop/au	shop/s
syrkas	circus
traeth/au	beach/es
trên/trenau	train/s

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
mynd	to go
gweld	to see

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
felly	then / therefore



Gramadeg Grammar

The past tense of 'Mynd' (to go)

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Es i?	Do, est ti / Do, mi est ti	Naddo, est ti ddim
Est ti?	Do, es i / Do, mi es i	Naddo, es i ddim
Aeth e/o?	Do, aeth e/o Do, mi aeth e/o	Naddo, aeth e/o ddim
Aeth hi?	Do, aeth hi / Do, mi aeth hi	Naddo, aeth hi ddim
Aethon ni?	Do, aethon ni / Do, aethoch chi / Do, mi aethon ni / Do, mi aethoch chi	Naddo, aethon ni ddim Naddo, aethoch chi ddim
Aethoch chi?	Do, es i / Do, aethon ni / Do, mi es i / Do, mi aethon ni	Naddo, es i ddim / Naddo, aethon ni ddim
Aethon nhw?	Do, aethon nhw / Do, mi aethon nhw	Naddo, aethon nhw ddim

The answer to each of the questions is 'do' or 'naddo'.

Mewn

We use '**mewn**' in order to say '*in a*', e.g.

Es i mewn awyren *I went in a plane*

There is no mutation after '**mewn**'.

Ar

We use '**ar**' in order to say '*on a*', and '**ar y**' in order to say '*on the*', e.g.

Aeth e ar drên *He went on a train*

Aeth hi ar y beic *She went on the bike*

'**Ar**' causes a **treigladd meddal** (soft mutation) each time.

'**Ar y**' causes a **treigladd meddal** before singular feminine nouns only.





Beth / Be oedd yno?

'Beth / Be oedd yno?' asks about the past (the imperfect tense)– '*What was there?*'

The imperfect tense is used to describe something that happened over a period of time in the past, or which happened more than once in the past e.g.

Beth oedd yno?
What was there?

Roedd siop yno / Mi oedd siop yno.
There was a shop there.

We must use the imperfect tense to answer, e.g.

Roedd sŵ yno / Mi oedd sŵ yno.
Doedd dim caffi yno.



Uned 5 Bwyd a Diod (Gorffennol 'Cael')

Dril 1: Beth gest ti? / Be gest ti?

Beth gest ti	i frecwast?	Ces i	dost i frecwast.
Be gest ti	i ginio?	Mi ges i	gawl i ginio.
	i fwyta?		afal i fwyta.
	i yfed?		laeth / lefrith i yfed.
	amser snac?		fisgïen amser snac.

Gest ti	gacen?	Do.
	frechdan ham?	Do, ces i frechdan ham / Do, mi ges i frechdan ham.
	sudd oren?	Naddo.
	rawnwin?	Naddo, ches i ddim grawnwin.

Sgwrs 1

Arweinydd: **Gest ti fwyd amser snac, Isaam?**

Isaam: Do, ces i rawnwin.

Arweinydd: Grawnwin gwyrdd?

Isaam: Nage. Grawnwin du.

Arweinydd: O da iawn. Beth gest ti Osian?

Osian: Grawnwin hefyd.

Arweinydd: **Gest ti rywbeth i yfed, Osian?**

Osian: Naddo. Ches i ddim byd.



Dril 2: Beth/Be gafodd e/o? / Beth/Be gafodd hi?

Beth / Be gafodd Iona i fwyta?	Cafodd / Mi gafodd Iona	dost.
Beth / Be gafodd Eddie i frecwast?	Cafodd / Mi gafodd Eddie	greision yd.
Beth / Be gafodd e/o amser snac?	Cafodd e / Mi gafodd o	foron amser snac. oren.
Beth / Be gafodd hi amser snac?	Cafodd / Mi gafodd hi	fanana amser snac. giwi.

Sgwrs 2

Arweinydd: Dyma Tedi Gwyn, blant.
Plant: Helo Tedi Gwyn!
Arweinydd: Rŵan, be gafodd Tedi i frecwast?
Cennydd: Tost, Miss.
Arweinydd: Do. Be gafodd o i yfed?
Dyfan: Llefrith, Miss.
Arweinydd: Do wir. A be gafodd Tedi Gwyn amser snac, Teifi?
Teifi: Mi gafodd o oren ac afal, Miss.
Arweinydd: Do. Mae gynno fo fol llawn rŵan!



Dril 3: Beth/Be gaethoch/gawsoch chi?

Beth / Be gaethoch / gawsoch chi i yfed?

Caethon / Cawson ni **ddŵr** i yfed.

Mi gaethon ni sudd / Mi gawson ni sudd.

Beth / Be gaethoch / gawsoch chi i fwyta?

Caethon / Cawson ni frechdan **gaws** i fwyta.

Mi gaethon / Mi gawson ni **dost**.

Gaethoch /Gawsoch chi

giwi?

Do.

afal?

Naddo.

fanana?

Do, caethon / cawson ni **fanana**.

Do, mi gaethon / mi gawson ni **fanana**.

oren?

Naddo, **chaethon** / **chawson** ni ddim oren.

Sgwrs 3

Arweinydd: Gawsoch chi snac bore 'ma, blant?

Plant: Do Miss.

Arweinydd: Gawsoch chi afal?

Plant: Naddo Miss.

Arweinydd: Gawsoch chi **dost**?

Plant: Naddo Miss.

Arweinydd: Beth gawsoch chi?

Plant: Cawson ni frechdan a llaeth.



Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd

Feminine Nouns

Cymraeg	Saesneg
bisgiën/bisgedi	biscuit/s
brechdan/au	sandwich/es
cacen/nau	cake/s
creision yd	corn flakes
diod	drink
grawnwin	grapes
moronen/moron	carrot/s

Enwau Gwrywaidd

Masculine Nouns

Cymraeg	Saesneg
bol/bola	tummy
brecwast	breakfast
bwyd	food
cawl	soup
caws	cheese
cinio	lunch
ciwi	kiwi
dŵr	water
ffrwyth/au	fruit
snac	snack
sudd afal	apple juice
sudd oren	orange juice
tost	toast

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
bwyta	to eat
yfed	to drink

Ansoddeiriau

Adjectives

Cymraeg	Saesneg
blasus	tasty
llawn	full





Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
dim byd	nothing
hefyd	also / as well





Gramadeg

Grammar

There are two forms of the verb 'cael' when you refer to 'ni', 'chi', or 'nhw'.
The first form is more informal, e.g.

Caethon ni
Caethoch chi
Caethon nhw

The second form is more formal and you will often see this written e.g.

Cawson ni
Cawsoch chi
Cawson nhw

Gorffennol 'Cael' *The past tense of 'cael'*

Person	Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
fi	Ges i?	Do, cest ti / Do, mi gest ti	Naddo, chest ti ddim
ti	Gest ti?	Do, ces i / Do, mi ges i	Naddo, ches i ddim
fe/fo	Gafodd e/o?	Do, cafodd e/o / Do, mi gafodd e/o	Naddo, chafodd e/o ddim
hi	Gafodd hi?	Do, cafodd hi / Do, mi gafodd hi	Naddo, chafodd hi ddim
ni	Gaethon ni? / Gawson ni?	Do, caethon ni / cawson ni Do, mi gaethon ni / mi gawson ni	Naddo, chaethon ni ddim / Naddo, chawson ni ddim
chi	Gaethoch chi?/ Gawsoch chi?	Do, caethoch chi / cawsoch chi Do, mi gaethoch chi / mi gawsoch chi	Naddo, chaethoch chi ddim / Naddo, chawsoch chi ddim
nhw	Gaethon nhw?/ Gawson nhw?	Do, caethon nhw / cawson nhw Do, mi gaethon nhw / mi gawson nhw	Naddo, chaethon nhw ddim / Naddo chawson nhw ddim





The answer to each of the questions is 'do' or 'naddo'.

There is a **treigladd meddal** (*soft mutation*) at the beginning of the question, e.g.

Gest ti dost?

There is no **treigladd meddal** (*soft mutation*) at the beginning of a positive sentence e.g.

Caethon ni afal amser snac. / Cawson ni afal amser snac.

There is a **treigladd llaes** (*aspirate mutation*) at the beginning of a negative sentence e.g.

Chafodd e ddim diod. / Chafodd o ddim diod.

Treigladd Meddal ar ôl rhagenw *Soft mutation after a pronoun*

There is a **treigladd meddal** (*soft mutation*) after a pronoun, namely fi, ti, fe/fo, hi, ni chi, nhw e.g.

Ces i ddŵr

Cafodd hi frechdan

No mutation follows 'dim', e.g.

Ches i ddim dŵr

Chafodd hi ddim brechdan



Uned 6 Hoff bethau

Dril 1: Beth / Be ydy dy hoff beth?

Beth / Be ydy dy hoff
anifail?
gêm?
degan?
fwyd?
ddiod?

Fy hoff
anifail ydy cath.
gêm ydy dominos.
degan ydy Doli Glwt.
fwyd ydy sbageti.
ddiod ydy llaeth.

Beth / Be ydy dy gas
anifail?
beth?
fwyd?
ddiod?

Fy nghas
anifail ydy neidr.
beth ydy brwsio dannedd.
fwyd ydy cawl.
ddiod ydy sgwash.

Pam?
Mae'n
hwyl.
flasus.
hyfryd.
ofnadwy.
ych a fi.

Sgwrs 1

Arweinydd: Be ydy dy hoff degan, Anni?
Anni: Fy hoff degan ydy Mabli Malwen.
Arweinydd: Pam?
Anni: Mae'n hyfryd.
Arweinydd: Be ydy dy gas fwyd, Efa?
Efa: Fy nghas fwyd ydy tomato.
Arweinydd: Pam?
Efa: Mae'n ych a fi!





Beth / Be ddest ti gyda / efo ti?	Des i â	ffrind	gyda / efo fi.
	Mi ddes i â	gêm	
		thegan	

Ddest ti â bwyd gyda/efo ti? Do, des i â bwyd gyda fi.
Do, mi ddes i â bwyd efo fi.
Naddo, ddes i ddim â bwyd gyda / efo fi.

Ddest ti â **chot law** gyda/efo ti? Do, des i â **chot law** gyda fi.
Do, mi ddes i â **chot law** efo fi.
Naddo, ddes i ddim â **chot law**. Des i â het hau!!

Arweinydd: Mae'r trip heddiw. Siôn, beth ddest ti gyda ti?
Siôn: Des i â brechdan ham.
Arweinydd: Da iawn. Deena, beth ddest ti gyda ti?
Deena: Des i â banana.
Arweinydd: A ti, Bethan? Ddest ti â bwyd gyda ti?
Bethan: Naddo. Des i â gêm dominos gyda fi.

Sut daethoch chi heddiw? Des i / Mi ddes i mewn car.
gyda / efo Mam.

Ddaethoch chi mewn car? Do.
Do, daethon ni mewn car. / Mi ddaethon ni mewn car.

mewn bws? Naddo.
Naddo, **ddaethon** ni ddim mewn bws.



Sgwrs 3

Arweinydd: Sut daethoch chi yma heddiw, blant?

Rasheed: Mi ddes i yn y car!

Arweinydd: Manon a Mabli, ddaethoch chi mewn car?

